*These notes refer to the Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (c.2)*

# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH ARYR ADRANNAU

***Adran 51 - diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed***

92. Mae p#er yn cael ei roi i Weinidogion Cymru fynd ati, drwy orchymyn, i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau er mwyn gwneud diwygiadau canlyniadol.

93. Mae Atodlen 1 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1 o'r Mesur.

94. Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o'r Mesur. Er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ystyried strategaethau cymunedol a gyhoeddwyd o dan y Mesur (ac nid, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y rheini a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

95. Mae Atodlen 2A yn cynnwys darpariaethau trosiannol i gadw strategaethau cymunedol a luniwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 hyd nes y bydd awdurdodau lleol wedi llunio strategaethau newydd o dan y Mesur. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i roi ystyriaeth i'w 'hen' strategaethau cymunedol hyd nes y bydd y rhai newydd wedi'u cyhoeddi o dan y Mesur.